

Adargraffiad gyda chaniatâd yr awdur a'r cyhoeddwy'r o bennod 5 Y *Ffynnon Arian*:
Cymdogaeth, Diwlliant a Chapel yn Llangwm, Uwchaled – Cyfrol 1 (tt. 125-152) gan Robin
Gwyndaf. Cyhoeddwy'r: Gwasg Dwyfor 1996

'Llangwm, saffrwm o serch': Tirwedd, Llwybrau a Phlanhigion

'Yn Llangwm, saffrwm o serch'. Y bardd Bedo Aeddren (*fl.* 1500) piau'r llinell hon, mewn cywydd o'i eiddo lie mae'n mynegi ei hiraeth am ei gariad.¹ Y mae'n llinell addas iawn hefyd fel pennawd i'r bennod hon. Saffrwm y Gwanwyn (*Crocus vernus*); Saffrwm Noeth-flodeuog, neu Saffrwm yr Hydref (*Crocus nudiflorus*); a Saffrwm y Gweunydd (*Colchicum autumnale*): tri math o saffrwm, y blodyn bychan nad yw'n tynnu fawr o sylw ato'i hun. Eto, gyda'i liwiau tyner, hyfryd, a cheinder a symrwydd ei ffurf, y mae'n harddu maes a gardd. Y mae hefyd yn tyfu ar fwy nag un adeg o'r flwyddyn. Fe'i gwelir yn y gwanwyn pan fo'r ddaear yn deffro, ac fe'i gwelir yn yr hydref pan fo'r ddaear yn paratoui at dymor y gorffwys yn y gaef.

Megis yr hyfrydwch o syllu ar glystyrau o saffrwm, felly yr hyfrydwch o rodio yn ardal Llangwm a'r cyffiniau a mawrygu ei phrydferthwch naturiol, gydol y flwyddyn.



Saffrwm

Dyfynnwyd eisoes gwpld Trebor Roberts:

Ac o gymoedd tlawd y werin, Harddaf man
yw'r hen Gwm Eithin.

A dyma linellau agoriadol cywydd Lewis T Evans (1882-1975) i Uwchaled, a enillodd iddo gadair Eisteddfod Llangwm, 1954:

Dymunol mynd am ennyd
I'm trigle ym more 'myd,
Lle taena'r grug ei hugan
Ar bob uchel oriel lan;
Perffaith lawlenni porffor
Mae'u hail hwy yn nhemlau lor?
Drostynt ar ei hynt ehed
Iach awelon Uwchaled...

'Yr wyt yn ddarn ohonof...'

Y mae'r bardd William Jones (1907-64), Hafod yr Esgob, Nebo, yntau wedi mynegi'n ddiffuant iawn ei serch dwfn at fro ei febyd, a'r geiriau cofiadwy yn fynegiant gloyw hefyd i brofiadau cymaint o'i gyd-ardalwyr yn Uwchaled:

Yr wyt yn ddarn ohonof,
Dy ffeg, a'th frwyn a'th gawn,
Dy fencydd a'th siglennydd,
Dy rug a'th briddyn mawn;
Dy foelni a'th gadermid di
Roes drydan yn fy esgyrn i.

Rhan annatod o brydferthwch yr ardal yw amrywiaeth cyfoethog y tirwedd. Teithiwn ar hyd yr A5 o gyfeiriad Pentrefoelas am Gerrigydrudion, ac fe sylwn ar unwaith ar y 'brwyn' a'r 'siglennydd', y 'priddyn mawn' a'r 'moelni' y cyfeiriodd William Jones atynt yn y pennill uchod o'i gerdd 'Nebo'. A sylwi hefyd nad oes yma fawr o goed. Chwedl yr hen bennill a ddyfynnwyd eisoes: 'Yng Ngherrigydrudion y coedydd sydd brinion...' Ond fel y cyrhaeddwn i gyffiniau Llangwm, daw mwy a mwy o goed i'r golwg. Ambell goeden unig, megis Masarnen, Onnen a Derwen, ond, yn bennaf, gwelwn glystyrau o goed hwnt ac yma. Rhed Afon Ceirw drwy ran helaeth o'r plwyf, ac ar hyd glannau'r Ceirw, o Gerrigydrudion i'r Glyn, tyf amrywiaeth mawr o goed a man lwyni. I'r dde a'r chwith o bobtu'r afon gwelir hefyd sawl coedwig neu goedlan, ac ambell 'nyrs' mwy diweddar. I gyfeiriad pentref Llangwm sylwn, er enghraifft, ar goed Garthmeilio, a phe baem yn oedi o flaen Capel Cefn Nannau i werthfawrogi'r olygfa braf o'n blaenau, gwelwn goed Arddwyfan, Ty Cerrig a Thy Gwyn rhwng aceri o dir glas ar y llechweddau. Yna wrth deithio ar hyd ffordd yr A5 i gyfeiriad Ty

Nant a'r Glyn Diffwys yr ydym wedi'n hamgylchynu ag amrywiaeth rhyfeddol o goed, llwyni a blodau gwyllt sy'n tyfu ar y creigiau o bobtu inni ac yn y ceunant mawr sydd uwchben Afon Ceirw.

Sylwodd Owen Jones yntau ar amrywiaeth y tirwedd ym mhlwyf Llangwm. Meddai wrth ysgrifennu yn ail gyfrol ei lyfr Cymru:

'Y mae ansawdd y tir, yn ogystal a nodwedd golygfeydd plwyf Llangwm, yn dra amrywiaethol. Ceir yma agos i 4000 o erwau o frasdir, cyfaddas i gynhyrchu grawn o wahanol fathau; oddeutu 2000 o fawndir; a phorfelidir; a 500 erw yn orchuddedig gan goed, yn cynnwys ffynidwydd, derw, &c. Cyfyd yma amryw fryniau uchel-gribog; ac anfynych y gwelir llannerch fwy rhamantus na'r Glyn Diphwys, lle y mae rhaiadr gwyllt, yn disgyn gyda mawredduswydd cyffrous. Llauer arlunydd a roddodd holl fedr ei bwyntel ar waith, i bortredu y bont gerllaw y rhaiadr hwn.²

Coed a phlanhigion Pont y Glyn

Oedwn am ychydig, felly, ar Bont y Glyn i werthfawrogi un o'r golygfeydd mwyaf cofiadwy ym myd natur. Sylwn ar unwaith ar yr amrywiaeth o goed sy'n tyfu ar y llechweddau creigiog o bobtu'r afon: Onnen, Derwen, Criafolen, Masarnen, Llwyfen, Collen, a rhagor. A sylwi hefyd ar yr amrywiaeth dibendraw o blanhigion a blodau sy'n tyfu yn y pridd llaith ac yng nghysgod y coed a'r llwyni. Wrth syllu dros ganllaw'r bont gerrig ym mis Gorffennaf 1995, gwelais, er enghraifft, ddigonedd o Ddail Tafol ac Iorwg neu Eiddew, ond fe welais hefyd blanhigion megis: Llysiau'r Llwynog neu Ddail Robin (*Geranium robertianum*, 'Herb-Robert'), a Choedfrwynen Fawr (*Luzula sylvatica*, 'Great Woodrush'). Ar ganllaw'r bont, yr ochr allan iddi, tyfai blodyn hardd o'r enw Gwylaeth y Fagwyr (*Mycelis muralis*, 'Wall Lettuce'). Ar y bont ei hun, yr ochr i mewn i'r canllaw, neu wrth ei hymyl, tyfai blodyn melyn o'r enw Cartheig (*Lapsana communis*, 'Nipplewort'), ac un bach pinc o'r enw Helyglys Llydandail (*Epilobium montanum*, 'Broad-leaved Willowherb'). Ar ganllaw'r bont hefyd tyfai tri math o redyn bychan: Llawredynen y Fagwyr (*Polypodium vulgare*, 'Polypody'); Duegredynen Gwallt y Forwyn (*Asplenium trichomanes*, 'Maiden-hair Spleenwort'); a Duegredynen Ddu (*Asplenium adiantum-nigrum*, 'Black Spleenwort').

'Troell y Corun yn galed iawn...'

O fwrw'n golygon ar y ffriddoedd a'r moelydd yn ardal Llangwm, daw pennill arall o eiddo William Jones, Nebo, i'r cof. Er mai at ardal Rhydydan, ger Pentrefoelas, y cyfeiria'r pennill hwn, y mae yr un mor addas i ddisgrifio'r ucheldir ym mhlwyf Llangwm:

Porfa gwtar Garn a'r Giler
Sydd yn hir yn graenu anner;
Lie bu'r eira'n aros hwyaf,
Mae yr haf yn aros leiaf.

Cofiw'n hefyd un hen bennill arall. (Fe'i cofnodwyd gennyf yn ardal Mynydd Hiraethog, ond ni wn ai perthyn i'r ardal honno a wna ai peidio.)

Lladd y gwair a'r bladur blwm
Ar rosydd llwm, mynyddig;

Troell y Corun yn galed iawn
A'r wana'n llawn o gerrig;
Ni chawn arfod yn fy myw
Gan fonau'r eithin Ffrengig.

Brwynen Droellgorun (*Juncus squarrosus*, 'Heath Rush') yw'r enw swyddogol Cymraeg ar Droell y Corun. Y mae'n frwynen galed sy'n tyfu ar dir uchel, megis rhosydd, ac yn troelli wrth ichi geisio'i thorri - yn union fel twffyn o wallt yn troelli ar gorun eich pen, megis llyfiad buwch neu lyfiad llo. Eithin Ffrengig yw eithin mawr, bras (*Ulex europaeus*). Ond rhannol wir yw'r pennill hwn bellach am Langwm a'r cyffiniau, oherwydd yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf fe losgwyd llawer iawn o'r eithin a'r grug ar y llechweddau, ac yna eu haredig, gan droi'r rhosydd llwm, mynyddig' yn dir glas, maethlon. Gwnaed hynny er enghraifft, yn 'Rhafod, fy nghartref i, yn nechrau'r pumdegau. Llogwyd y mynydd, ei aredig a'i ail-hadu.

Oes yr la, bryniau a moelydd a chraig y garreg las

Nid prydferthwch yr hyn a wel y llygad a hyfrydwch y funud awr yn unig sydd i'w brofi yma yn ardal Llangwm. Pan gerddwn y tir a syllu ar y coed a'r caeau, y dolydd a'r bryniau, gwyddom hefyd ein bod yn rhan o hanes cynnar iawn. Y mae patrwm y coed a'r blodau, er enghraifft, yn rhan o esblygiad naturiol dros gyfnod maith. Yn wir, yn 61 tystiolaeth ffosilau, gwyddom fod planhigion blodeuol wedi tyfu ar y ddaear ers tua chanol y cyfnod Mesosoig, rhyw 100 miliwn o flynyddoedd yn 61. Rhedyn a choed coniferaidd oedd yn bodoli, yn bennaf, cyn hynny. Tua 2 filiwn o flynyddoedd yn 61, yn Oes yr la, disgynnodd y tymheredd yn syfrdanol, a bu raid i goed a phlanhigion addasu er mwyn gallu goroesi'r gaeafau oerion, megis coed yn bwrw'u dail yn yr hydref, a phlanhigion lluosflynwyd yn bwrw'r gaeaf o dan wyneb y tir.

Bryd hynny yr oedd y rhan fwyaf o ddaear Cymru wedi'i gorchuddio gan drwch o rew, a dim ond copaon mynyddoedd uchel yn y golwg. Tua 10,000 o flynyddoedd yn 61, fodd bynnag, dechreuodd yr hin liniaru, ac y mae effaith y cynhesu graddol hwn i'w weld ar dirwedd ardal Llangwm a'r cyffiniau heddiw: dolydd a chaeau gleision llawr gwlad; nentydd a man gymoedd. Ac yn gwasgodi'r cyfan: nifer helaeth o ffriddoedd, moelydd a bryniau. Uwchben Ty Nant: Mwdwl Eithin (1542 troedfedd) a Chadair Dinmael; uwchben pentref Llangwm: y Foel Goch (2004 troedfedd), Pen y Cerrig Serth, Pigyn Benja, a'r Garnedd Fawr. Yn wahanol i flynyddoedd uchel ysgythrog Eryri, yr oedd y cyfan o'r bryniau a'r moelydd hyn unwaith wedi'u gorchuddio ag ia. Wrth i'r hin gynhesu ac i'r rhew gilio, cawsant eu llyfnhau a'u ffurfio i'r hyn ydynt heddiw.

Y mae natur ddaeaegol y tir hefyd yn dyst iddo unwaith gael ei orchuddio gan rew a dwr. Yn bennaf, craig waddodol yw'r ddaear yn yr ardal hon: shalen, sef carreg las wedi'i ffurfio o dan ddwr wrth i ronynnau a phridd llaith, neu fwd, gael eu gwaddodi yn haen ar 61 haen a'u gwasgu'n graig. Dyna paham y mae shalen yn hollti'n rhwydd. ('Llechen wedi'i siomi!' yw un disgrifiad da ohoni a glywais gan y Dr Goronwy Wynne.) Perthyn y creigiau hyn yn fras i'r Oes Balaeosoig ac, yn fwy penodol, i'r Cyfnod Silwraidd (tua 440 miliwn o flynyddoedd yn 61). Gellir cymharu

creigiau gwaddodol (shalen) a'r creigiau igneaidd, megis gwenithfaen - carreg galed a ffurfiwyd wrth i fagma neu lafa poeth ffrydio allan drwy gramen y ddaear yn ystod gweithgaredd folcanig, megis mynydd tanllyd.

'Gwaedgoch ei brig - degwch bro': coed brodorol a choed dwad

Gyda diflaniad Oes yr Ia, tyfodd mwy a mwy o goed. Erbyn tua 5000 o flynyddoedd yn 61 yr oedd tua thri chwarter tir Cymru wedi'i orchuddio gan goed, sef y cyfan ac eithrio tir uchel, dros 2000 troedfedd, neu dir gwlyb iawn. Bryd hynny byddai Uwchaled, mae'n bur sicr, wedi'i orchuddio'n gyfan gwbl gan goed. Pinwydden a Bedwen oedd i'w gweld, yn bennaf, yng Nghymru ar y dechrau, tua'r cyfnod 8000-6000 Cyn Crist. Tua 6000-5000 Cyn Crist, Pinwydden a Chollen oedd amlycaf. Yna, yn ystod oddeutu 5000-500 Cyn Crist, yr oedd coed llydan-ddail, megis y rhai a ganlyn yn gyffredin iawn: Derwen, Llwyfen (Elm) a Chollen. Felly hefyd y Bisgwydden (Lime), Gwernen (Alder) ac Onnen. Gorchuddid rhan helaeth o'r tiroedd uchel (hyd at oddeutu 2000 troedfedd) yn y cyfnod hwn gan goed Pinwydd a Ffawydd (Beech). Yn ystod y cyfnod diweddar, o tua 500 Cyn Crist ymlaen, rhai o'r coed amlycaf oedd: Derwen, Ffawydden, Bedwen a Gwernen. O tua 5000 o flynyddoedd yn 61 dechreuwyd clirio'r fforestydd, yn bennaf er mwyn datblygu'r tir amaethyddol, sicrhau diogelwch rhag anifeiliaid gwylltion, paratoi ffyrdd, ac i gynhyrchu tanwydd, megis golosg ar gyfer gweithio haearn. Bellach, ychydig iawn o'r coedwigoedd cynnar sydd wedi goroesi.

Rhennir coed i ddau brif ddsbarth: coed brodorol a choed dwad. Y mae'r naill fath a'r llall i'w gweld yn helaeth yn Llangwm a'r cyffiniau heddiw, weithiau ar wahan, dro arall yn gymysg a'i gilydd. Er enghraifft, coed brodorol, megis Bedwen, Derwen, Llwyfen, Collen, Criafolen, Helygen, Gwernen, Pisgwydden, a'r Ddraenen Wen. Coed dwad, er enghraifft, yw'r Fasarnen (Sycamorwydden), Castanwydden ('pren concars'), Ffawydden (Beech), Llarwydden (Larch), a choed conifferaidd, bytholwyrdd, gyda'u dail main fel nodwydd: Pinwydden, Sbrwsen a Ffynidwydden (Fir).

Un o'r coed brodorol mwyaf diddorol yn y fro yw'r Griafolen neu'r Gerddinen (*Sorbus aucuparia*, 'Mountain Ash' neu'r 'Rowan Tree'). Fe'i disgrifiwyd gan Eifion Wyn fel hyn:

Onnen deg a'i grawn yn do; - yr adar A oedant lle
byddo; Wedi i haul Awst ei hulo, Gwaedgoch ei
brig - degwch bro.

Fe gredid gynt fod y Griafolen, fel Pren Celyn, yn fodd i ddiogelu'r ty a'r teulu rhag mellthith ac anffawd. Fe'i gwelir, felly, yn ami yn tyfu wrth hen annedd-dai. Mewn rhai rhannau o'r wlad fe'i gelwir yn Bren-Cas-Gan-Gythrel. Un gred yw i'r Diafol gael ei grogi ar y pren hwn. Cred arall yw mai o'r Griafolen y gwnaed croes Iesu Grist a bod y ceirios coch yn cynrychioli ei ddafnau gwaed.

'Yng ngwyrth yr haul, y glaw a'r pridd../: o Fron Dirion i Fryn Llys, a thaith yr hen weinidog ffyddlon

Ar y 4ydd o Orffennaf 1995 treuliais ddiwrnod cofiadwy iawn yn dilyn rhai o'r llwybrau yr arferai aelodau Capel Cefn Nannau eu defnyddio wrth gerdded i'r moddion. A dyna oedd y drefn bryd hynny, wrth gwrs, cyn dyddiau'r cerbyd modur: cerdded, a hynny weithiau deirgwaith ar y Sul, ac yna wedyn ar noson waith. Wrth ddilyn rhai o'r llwybrau y diwrnod hwnnw hyfrydwch arbennig i mi oedd cael cwmni'r cerddor a'r botanegydd, y Dr Goronwy Wynne, Licswm, awdur y gyfrol safonol *Flora of Flintshire* (Gee, 1993). Ni allaf yma ond rhoi rhagflas yn unig o'r cyfoeth o flodau a phlanhigion sy'n tyfu ar ochrau'r cloddiau yn y fro hon. Y mae, fodd bynnag, reswm da dros wneud hynny yn y llyfr hwn - dau, yn wir. Rheswm personol yw'r un cyntaf: cefais i, fel eraill o blant Uwchaled, fy magu i werthfawrogi prydfferthwch byd natur. Yr oedd bri, er enghraifft, bob blwyddyn ar y gystadleuaeth yn Sioe Llangwm a Sioe Cerrig: 'Casgliad o Flodau Gwylltion'. Byddem fel plant hefyd yn sychu blodau a phlanhigion, eu gosod gyda mawr ofal rhwng cloriau llyfr ac yna, hyd y galle, yn rhoi enw ar bob un. Ond y rheswm pennaf yw hwn: o adnabod pobl y fro a sgwrsio a hwy mi wn eu bod hwy a'u hynafiaid wedi byw mewn cymundeb agos a byd natur. Stori a chan, emyn a phregeth, blodyn a phlanhigyn - 'mae'r oil yn gysegredig', a gallai llawer un ddiolch gyda'r bardd ID Hooson am:

...beth o'r rhin A rydd y ddaear fyth i'w phlant Yn si y
dail a murmur nant, Yng ngwen blodeuyn ar y ffridd,
Yng ngwyrth yr haul, y glaw a'r pridd...³



Y Parchg J R Jones a Smot, y ci, ger ei gartref, Fron Dirion, Llanfihangel Glyn Myfr

Un a fyddai wedi diolch llawer am y wyrth hon ydoedd y Parchg J R Jones. Os gwyddai rhywun beth oedd gwerth cerdded maith filltiroedd, myfyrio ar y daith, a mawrygu can adar a blodau'r maes - J R Jones oedd hwnnw. Bron drwy gydol ei weinidogaeth, 1907-49, bu'n cerdded o Lanfihangel Glyn Myfyr i Gapel y Cefn ac yn 61, Sul, gwyl a gwaith, haf a gaeaf. O Fron Dirion heibio Bryn Llys a Maes Gwyn, Ty Mawr a Thy Hen, Penygeurydd a Felin Pen-y-gaer, hyd at Bont Hendre Arddwyfan. Rhagddo wedyn heibio Glan Ceirw nes cyrraedd Capel y Cefn. Dyma'r ffordd hefyd y byddai teuluoedd Pen-y-gaer, Felin Pen-y-gaer, Hendre Arddwyfan a Gwern Nannau wedi ei dilyn. Byddai teuluoedd Plas Nant, Glyn Nannau a Bryn Nannau hwythau yn ymuno a'r un ffordd yn agos i Bont Hendre.

Bysedd y Cwn a Throed y Ceiliog; Melyn yr Eithin a Sawdl Crist

Wedi teithio i fyny'r allt hir o Lanfihangel, y mae'n bryd inni gymeryd hoe fach. A dyna a wnaethom rhwng Bryn Llys a Maes Gwyn, a sylwi ar ychydig lathenni o dyfiant toreithiog yn y cloddiau bob ochr i'r ffordd. Dyma rai o'r planhigion a welsom y diwrnod hwnnw o Orffennaf yn yr union fan hon.

1. Dail Tafol.

2. Ysgall.
3. Bysedd y Cwn (gelwir hefyd: Clatsh y Cwn, Gwniadur Mair, Menyg Mair, Menyg y Llwynog a Menyg y Tylwyth Teg).
4. Dant-y-llew.
5. Llus.
6. Blodau'r Menyn.
7. Tresgl y Moch (neu Melyn yr Eithin: *Potentilla erecta*, TormennT)-
8. Llwynhidydd (*Plantago lanceolata*, 'Ribwort Plantain'; gelwir hefyd: Llwyn y Neidr, Sawdl Crist a Llysiâu'r Ais).
9. Pysen y Ceirw (*Lotus corniculatus*, 'Common Bird's-foot-trefoil'; perthyn i deulu'r meillion; gelwir hefyd: Ffa Ieir, Troed y Deryn, Ewinedd y Gath, Bacwn ac Wy, Ystlys y Waun).
10. Ytbysen y Ddol (*Lathyrus pratensis*, 'Meadow Vetchling').
11. Tagwyg Bysen (*Vicia cracca*, 'Tufted Vetch').
12. Gorthyfail (neu Cegiden Fenyw, *Anthriscus sylvestris*, 'Cow Parsley').
13. Efwr (*Heracleum sphondylium*, 'Hogweed', neu 'Cow Parsnip'; gelwir hefyd: Ceccsen, Panasen y Cawr a Moronen y Meirch).
14. Briwydden y Rhosdir (*Galium saxatile*, 'Heath Bedstraw').
15. Pengaled (*Centaurea nigra*, 'Common Knapweed'; planhigyn a phen caled, porffor iddo).
16. Byswellt (*Dactylis glomerata*, 'Cock's-foot'; gelwir hefyd: Troed y Ceiliog a Grugwellt).
17. Ceirchwellt Tal (*Arrhenatherum elatius*, 'False Oat-grass').
18. Brigwellt Cudynnog (*Deschampsia cespitosa*, 'Tufted Hair-grass').

O Fryn Llŷs a Maes Gwyn ymlaen a ni heibio Ty Mawr a Thy Hen at Felin Pen-y-gaer. Oddi yno i lawr Allt Hendre, gan ddilyn y nant y bu Syr John Rhys yn holi tybed ai Dwyfan oedd yr enw arni gynt. O bobtu'r nant ceir amrywiaeth o goed, megis Masarn, Gwern, Cyll, Helyg, Drain Gwynion a Drain Duon. Yn tyfu ar ben wal gerrig yn agos i dy Hendre Arddwyfan sylwn ar un hen blanhigyn traddodiadol a thra diddorol, sef Pupur y Fagwyr (*Sedum acre*, 'Biting Stonecrop'), blodyn melyn ag iddo ddail bychan crwn, tew, sy'n dal llawer o ddwr. Dyna paham y gall dyfu ar le sych, megis ar ben wal gerrig. O wasgu'r dail a phrofi'r sudd, mae bias pupur arno.

Fe ellid nodi llawer iawn o blanhigion a blodau diddorol sy'n tyfu yn y gwrychoedd a'r cloddiau o bobtu'r ffordd o Bont Hendre a heibio Glan Ceirw. Am y tro, fodd bynnag, bodlonwn ar gyfeirio'n unig at y gwrych rhwng Gwern Nannau a'r tro am Gapel y Cefn. Y tyfiant mwyaf amlwg ynddo yw'r Helygen Grynndail Fwyaf (*Salix caprea*, 'Goat Willow'), gyda'i dail crwn, meddal.

Llwybr Ty Cerrig, Llyn Tro a'r Llwybr Hyll

Ambell dro, ac yn arbennig pan fyddai arno angen ymweld a theuluoedd, arferai J R Jones gerdded y daith i Gefn Nannau drwy droi ar y chwith wedi mynd heibio Maes Gwyn a dilyn wedyn hen ffordd drol, neu ffordd las, drwy dir Ty Mawr a 'Rhafod, ac i gyfeiriad Penrhwyflfa. Yna ar hyd Llwybr Foty i fuarth Ty Cerrig, a galw yn y ty , fel arfer, am sgws a phaned. Mawr fyddai'r croeso iddo gan Sarah a Robert Owen a'r plant. Weithiau byddai wedi gwlychu'n socen dail, a bryd hynny arferai gael benthg dillad Robert Owen. Ai'r gweinidog ffyddlon wedyn rhagddo ar ei siwrnai i'r capel, ac erbyn y byddai'n galw yn Nhy Cerrig ar ei ffordd yn 61, byddai'r dillad, siawns, wedi sychu.

Trwy fuarth Ty Cerrig yr aem ninnau fel teulu o 'Rhafod i'r capel cyn inni brynu'r cerbyd modur cyntaf. Cerdded ar hyd Cae Bach a Chae Newydd at y Giat Goch. I lawr wedyn i fuarth Ty Cerrig ar hyd llwybr digon serth a chul, a thrwch o redyn o boptu iddo am ran o'r flwyddyn. Y mae Tegwyn ac Eifion, fy mrodyr hyn, yn cofio'r siwrneiau hynny yn well na mi, ond y mae gennyf innau frith gof am un prynhawn crasboeth o haf. Mynd yn Haw fy nain a chlamp o neidr yn croesi'r llwybr. O leiaf, roedd hi'n ymddangos yn fawr i bwt o hogyn fel fi bryd hynny. Ni chofiaf yn union beth ddigwyddodd wedyn, ond roedd gan fy nain ffon i'w helpu i gerdded, ac y mae'n sicr fod gwybod am y ffon a gwybod hefyd fod Nain hefo mi, wedi tawelu fy ofnau.

O fuarth Ty Cerrig byddem yn croesi'r A5 a dilyn y Ffordd Gul nes dod at y bompren dros Afon Ceirw. Yna, canlyn yr afon ar hyd Ddol Ty Cerrig nes dod at y llyn tro wrth waelod Llwybr Hyll.

Byddai gennym ni blant ofn ar ein calonnau wrth fynd heibio'r afon yn y fan hon, oherwydd inni gael ein dysgu fod y dwr yno yn troi ac yn troi, a'r llyn yn ddiwaelod. Dringo wedyn y pwt o Iwybr serth, a elwid gan bawb yn Lwybr Hyll, drwy'r penwar, a chroesi'r ffordd gefn o Ystrad Bach. A dyna ni wrth y giat i Gefn Nannau a'r capel. Ar wahan i deuluoedd 'Rhafod, Ty Cerrig (a Phenrhwyflfa ar un adeg cyn iddo fynd yn furddun) dyma'r llwybr a ddefnyddid hefyd gan deulu Arddwyfan a Thy Gwyn.

Ceir mwynglawdd o blanhigion a choed yn tyfu ger Llwybr Hyll. Ar lan yr afon, yn agos i'r llyn tro ar waelod y llwybr, er enghraifft, sylwn ar flodyn diddorol iawn sy'n hoff o dyfu mewn lie gwlyb: Blodyn y Mwnci (*Mimulus guttatus*). Yn ei ymyl, gwelwn y Llwynhidydd. O bobtu'r llwybr, tyf yr Onnen a'r Wernen, y Fed wen Arian, y Fasamen a'r Helygen Gyffredin, neu Helygen Olewydd-ddail (*Salix cinerea* subs. *oleifolia*, 'Rusty Willow').

'Rwan, Alice, at yr organ 'ne': croeso i blant ar aelwydydd y fro

Cerdded drwy fuarth Ty Cerrig ac ar hyd y Ffordd Gul at y Llwybr Hyll - dyna'r siwrnai i ni o 'Rhafod i'r capel, felly, cyn dyddiau'r cerbyd. Ambell dro byddem yn cael gwahoddiad i ginio, neu de, rhag gorfod cerdded bob cam adre a dod nol wedyn i'r capel mewn pryd erbyn yr oedfa ddau neu chwech. Digwyddai hynny yn arbennig pan fyddai 'cwarfod plant' neu ryw gyfarfod arall rhwng yr oedfaon. Cynnes iawn

oedd y croeso bob amser ar adegau felly yng Nghefn Nannau, Ystrad Bach a Bryn Hyfryd, ger y capel.

Roedd dau dy ym Mryn Hyfryd. Yn un ohonynt roedd Elizabeth a Robert Jones yn byw, ac atynt hwy yr awn i, fel arfer. Cof plentyn yn unig sydd gennyf, ond y mae dau atgof arbennig yn aros: cofio gweddiau dwys Robert Jones yn y capel, a chofio wyneb crwn hardd Mrs Jones a'i gwen garedig. Soniodd fy mrawd Eifion wrthyf amdano ef, mewn cyfnod ychydig yn gynharach, yn mynd at Mrs Williams, Brynhyfryd, i aros ar ei ffordd adre o'r ysgol yn Llangwm er mwyn gallu mynd i 'gwarfod plant' neu 'gwarfod darllen' yn y capel. Byddai Mam wedi gofalu ei fod yn rhoi 'hanner dwsin o wye' iddi wrth basio heibio'r ty yn y bore. Yn wir, roedd hi'n arferiad yn ein teulu ni, fel gyda chymaint o deuluoedd eraill yr ardal, i beidio, os oedd hi'n bosibl, a mynd i unrhyw gartref yn waglaw. Hyd at y diwedd, byddai Mam yn dweud wrthym yn aml os oedd un ohonom ar gychwyn i ymweld a rhywun: 'cer a tun ffrwt efo ti', neu 'cer a chydig o wye'.

Yn yr atgofion a sgrifennwyd gan fy mrawd, Tegwyn, y mae yntau yn dwyn i gof y croeso brwd a gai rhwng dwy oedfa; er enghraifft, yn Ystrad Bach. Y mae'n werth hefyd dyfynnu un sylw pellach o'i eiddo. Ar 61 te byddai David Jones yn dweud:

'Rwan, Alice, at yr organ 'ne inni gael canu.'

'A chanu fyddai yno hyd nes y gwelent aelodau yn cerdded am y capel, ac amser wedi hedfan i rywle.'⁴

Croeso a charedigrwydd ar ddydd Sul - ac felly ar ddiwrnod gwaith. Y mae gan fy mrodyr hyn a minnau atgofion braf am y daith o fuarth Ty Cerrig i fyny'r llwybr igam-ogam i 'Rhafod. Hyfryd bob amser oedd y croeso gan Sarah a Robert Owen, Jane ac Oliver Hughes, ar ein ffordd adre o'r capel ac o'r ysgol. Ambell dro yn ystod yr wythnos byddem yn galw heibio Ty Cerrig i mofyn bara ac unrhyw neges arall a oedd wedi cael eu gadael yno inni eu casglu. Cof da am Aeryn, fy mrawd, a minnau fwy nag unwaith yn methu'n lan a gwrthsefyll y demtasiwn i ddechrau pigo'r bara blasus, ac wedi dechrau, anodd ar y naw oedd rhoi'r gorau iddi, a'r twll yn y gornel yn mynd yn fwy ac yn fwy!

Yn ami iawn byddem yn gweld Robert Owen yn yr hofel ar y buarth, gyda'i dwls saer bob amser yn daclus. Wrth siarad, tueddai i ddweud 'th' yn lie V, ond yr oedd hynny i ni blant yn rhan o'i bersonoliaeth a'i sgwrs ddifyr. Arferai ofyn i'm brawd Eifion:

'Wyt ti wedi clywed y gog eto 'leni?'

'Na', atebai yntau.

Un flwyddyn penderfynodd fy mrawd ddynewared y gog ar y llechweddau uwchben Ty Cerrig, ac ail-bowtiodd y 'gw-cw' deirgwaith, cyn rhoi ras i lawr am y buarth.

'Wyt ti wedi clywed y gog?' holodd Robert Owen.

'Do', meddai Eifion.

'Wel, a finne hefyd, wath', meddai Robert Owen, 'ond mae hi 'di cael dipyn o annwyd er pan glyweth hi'n canu llynedd, wath!' A hwyl braf. Roedd y gath allan o'r cwd; gwyddai o'r gorau mai fy mrawd oedd wedi dynwared y gog!⁵

Rhonwellt-y-Cadno Cymalog a Chegid y Dŵr: O Dy Nant i Gapel y Cefn

Y mae amryw o aelodau Capel Cefn Nannau heddiw yn byw yng nghyffiniau Ty Nant. Ac felly yr oedd hi ar ddechrau'r ganrif a chyn hynny. Yr Adroddiad cynharaf a welais sy'n cynnwys rhestr o enwau'r aelodau yw'r un am y flwyddyn 1902. Bryd hynny yr oedd y teuluoedd a ganlyn o ardal Ty Nant yn mynychu Capel Cefn: Pig y Bont, Brynffynnon, Ty Tan y Berllen, Ty'n Ddol, Disgarth (ni wahaniaethir rhwng Disgarth Ucha a Disgarth Isa), Cae Fadog, Ty'n-y-fron, Pen-dre (cartref fy nhad) a Thy'n Pistyll. Dyma un atgof gan fy mrawd Tegwyn:

'Roedd John Morris yn gymydog i ni ym Mhen-dre... Yr hyn a gofiau gyntaf am Gapel y Cefn oedd mynd yn llaw John Morris, Ty'n-y-fron a'm tad. Daw i gof iddo rannu fferins a gwneud hwyl efo fi. Hefyd cof am yr hetiau duon caled oedd mor ffasiynol gan nifer o'r dynion yn y cyfnod hwnnw yng nghanol y tri degau. Cofiaf yr orymdaith yn cerdded am y capel, llawer efo ffyn neu ambarel, a'r merched mewn dillad llaes ac esgidiau duon uchel dros eu fferau.'⁶

Cerdded i Gapel y Cefn o Dy Nant dros Bont Ty Gwyn, wrth gwrs, a heibio Ystrad Bach. Ar y daith hon eto fe sylwn ar amrywiaeth mawr o blanhigion ar ochrau'r ffyrdd. Oedwn am ennyd, er enghraifft, ar Bont Ty Gwyn, ac fe welwn amryw o blanhigion ar lan yr afon sy'n nodweddiadol o dyfiant mewn lie llaith, megis Blodyn y Mwnci a Chegid y Dwr (*Oenanthe crocata*, 'Hemlock Water-dropwort'). Gwelwn amryw fathau o weiriau hefyd, megis Maeswellt Cyffredin (*Agrostis capillaris*, 'Common Bent'); Ceirchwellt Tal (*Arrhenatherum elatius*, 'False Oat-grass'); Maswellt (*Holcus lanatus*, 'Yorkshire-fog'); Cynffonwellt Elinog, neu Rhonwellt-y-Cadno Cymalog (*Alopecurus geniculatus*, 'Marsh Foxtail'), a Phefrwellt, neu Gorswellt Amryliw (*Phalaris arundinacea*, 'Reed Canary-grass').

O Ffordd Fain i Ystrad Bach; dros Gamfa Nyrs i Gefnydd Ystrad Fawr; cwmwl yn torri a llifddyfroedd Llangwm

Teithiai teulu Fron Isa i'r capel ar hyd y Ffordd Fain a heibio Ystrad Bach. Heibio Ystrad Bach hefyd y deuai teuluoedd Llwyn Saint ac Ystrad Fawr. Ond am y teuluoedd a oedd yn byw yn nes i ganol



Llifogydd Llangwm, ger Pen y Bont, Gorffennaf 1907.



Effaith y llifogydd ar y ffordd ger Pen y Bont. Yn y darlun: un o deulu Garthmeilio (?)

pentref Llangwm, megis Ty Newydd, Fron Llan a'r Post, fe deithient hwy dros Bont y Capel, ger y Felin. Yna, yn fuan wedi pasio'r fynedfa am Garthmeilio, troi ar y chwith dros Gamfa Nyrs (Nyrs Garthmeilio). Croesi wedyn ar hyd Cefnydd Ystrad Fawr, a thrwy Gae Sgubor, nes dod i fuarth Cefn Nannau ac i olwg y capel.

Prin, fodd bynnag, y byddai neb o drigolion pentref Llangwm wedi gallu cerdded i Gapel y Cefn un Sabath ym mis Gorffennaf, 1907. Dyna'r diwrnod y torrodd cwmwl uwchben Cwmlan. A dyma ddyfyniadau o adroddiad llawn am yr alanas gan un sy'n galw'i hun yn 'Iolo' yn y newyddiadur *Yr Wythnos a'r Eryr*, 31 Gorffennaf 1907.

'...Fel un prin o allu ymgeisiaf roddi i chwi fyr hanes am y cenllif a ddaeth i lawr y Sabath, cyn y diweddaf, yr hyn fydd ar gof yr oil sydd fyw, ac na welwyd ei gyffelyb yn broydd hyn... Yr oedd y dydd

hwn yn ferw i gyd wrth edrych ar eiddo yn cael ei ysgubo dros y lie gan y dymestl a'r dyfroedd mawrion, a chan adael pawb mewn cyffro. Ond cafwyd, drwy drugaredd, fywyd pawb wedi ei ddiogelu yn y rhyferthwy. Mae olion diamheuol o doriad y cwmwl ar ochr ddeheuol y mynydd i ffermdy Cwmlan... Bum yn llygad dystVr llannerch y gwnaed yr hafoc. O Gwmlan i lawr i Lanrafon y gwnaed y golled fwyaf gan yr aber Cemig sydd yn tarddu wrth droed Mynydd Cwmlan. Dinistriwyd pontydd a mynedfeydd i lawr i'r Llan. Trodd yr afon allan yn y pentref am nad oedd lie i'r dyfroedd fynd drwy Bont y Jubilee, ac hefyd gwnaed difrod mawr i'r ffordd o hynny hyd Ben y Bont, yr hwn le oedd bron a boddi cyd-rhwng y ddwy afon, sef Medrad a Chemig...

Yr oedd yma fel deufor gyfarfod a hwnnw yn ei gynddaredd, a chododd y cenllif i bwynt uchel. Holl gynnwys yr iard goed [iard goed y Seiri Cochion] yn nofio, a chafwyd colledion trymion ar y coed ac hefyd eiddo personol Mr William Jones. Yn anffodus, yr oedd un o'r gwartheg heb fod yn iach yn y beudy gerllaw. Dihangfa gyfyng drwy rwystrau, neu buasai wedi boddi. Dydd Gwener dilynol bu farw'r anifail, yr hwn oedd yn werth arian mawr. Credaf fod y dwr yn dair llath a hanner o wely yr afon gerllaw. Mewn canlyniad, gellir credu am y colledion trymion o'r Henblas i lawr i'r Hendre, Llwynmali, ac hefyd dolydd gweiriog Ystrad Fawr, Llwyn Saint a Glanrafon, y cyfryw sydd wedi eu gwneud yn berffaith ddiwerth ar wair, yd, tatws a sweds. Yn sicr, mae y colledion yn ddifrifol iawn. Ond y mae yn elfen o gysur fod gennym yn ein plith fonheddwr yn dirfeddiannwr, ac un sy'n gallu cydymdeimlo a phawb mewn cyfyngder, fel mae wedi addo yn barod, ac yn sicr o gyflawni ei addewid, o wrando eu cwynion, ac hefyd eu helpu ymhob ystyr...'

Mantell y Forwyn a Llau'r Offeiriad; Clust Llygoden y Felin a Chrafanc y Fran: y gwrychoedd a'r fynwent ger Capel y Cefn

Dyna ni crbyn hyn wedi dilyn y prif Iwybrau sy'n arwain i Gapel Cefn Nannau. Ddoe: cerdded ar ddwy droed. Heddiw: cyrraedd yn gyfforddus mewn car. Ond yr un yw'r nod. Y mae bendith i'w derbyn hefyd hyd yn oed heb fynd i mewn i'r addoldy o gwbl, oherwydd y mae'r hen arferiad o oedi y tu allan i'r capel am sgwrs yn parhau, yn enwedig ar 61 yr oedfa neu'r ysgol Sul. A phrin fod yr un capel wedi'i adeiladu mewn llecyn mor ddymunol, ar godiad tir. Ffynnon ar y bryn. Y tu 61 inni y mae fferm Cefn Nannau a'r coed yn cysgodi'r ty. O'n blaenau, ychydig i'r chwith, gwelwn lechweddau coediog Arddwyfan a thir Ty Cerrig, ac o'r golwg, yn uwch i fyny eto, mae tir 'Rhafod. O'n blaenau ac i'r dde mae tir Ty Gwyn ac Ystrad Bach a'r ffermydd i gyfeiriad Ty Nant a Dinmael. Yma yn y llecyn hyfryd hwn rhwydd iawn yw gwerthfawrogi cyfoeth a phrydferthwch byd natur. Am ran olaf y bennod hon, felly, estynnaf wahoddiad ichwi ddod gyda mi ar hyd y pwt o ffordd (rhyw gan llath neu lai) sy'n arwain o Giat Cefn Nannau, ger y Llwybr Hyll, at y capel ac yna i'r fynwent. Y mae'r gwrych bob ochr i'r ffordd yn nodweddiadol o wrychoedd llawn tyfiant yr ardal amaethyddol hon. Dyma, felly, fras restr - a bras restr yn unig, wrth gwrs - o'r planhigion a'r blodau a welodd y Dr Goronwy Wynne a minnau yn tyfu ynddo, 4 Gorffennaf 1995. Dechreuwn drwy sylwi ar y gwrych sydd yr ochr chwith inni, ac sy'n amgau rhan o Ros Dan Capel, Ystrad Bach. Mewn rhai mannau o'r gwrych mae'r tir yn bur wlyb.

1. Draenen Wen.
2. Mieri.
3. Rhosyn Coch Gwylt.
4. Rhosyn Gwyn Gwylt.
5. Dail Tafol.
6. Bysedd y Cwn.
7. Danadl Poethion.
8. Helyglys Hardd (*Chamerion angustifolium*, 'Rosebay Willowherb'). Gelwir hefyd: Blodau Santes Fair, Llysiau'r Clochdy, Milwr Coch, Procer Coch, Tanchwyn a Thanllys.

9. Efwr (*Heracleum sphondylium*, 'Hogweed'). Gelwir hefyd: Bras Gawl, Ceesen, Moron y Meirch, Moron y Moch, Panasen y Cawr, Pannas Gwyllt a Phannas y Fuwch.
 10. Ysgallen y Gors (*Cirsium palustre*, 'Marsh Thistle'). Gelwir hefyd: Marchysgall y Gors ac Ysgallen Gweirglodd Wlyb.
 11. Blodyn y Mwnci (*Mimulus guttatus*).
 12. Blodyn Ymenyn (*Ranunculus acris*, 'Meadow Buttercup').
 13. Llau'r Offeiriad (*Galium aparine*, 'Cleavers' neu 'Goosegrass'). Gelwir hefyd: Bwyd Gwyddau, Cariadwyr, Cynga'r Coed, Cynna, Gwlydd y Perthi, Llau'r Perthi a Llysiau'r Hidl. Pan gerddai'r offeiriad gynt tua'r eglwys, byddai ffrwythau bychain crwn y planhigyn hwn yn glynu yn ei wisg laes. Arferai plant dynnu ei goes drwy eu galw yn 'Llau'r Offeiriad', a dyna sut y cafwyd yr enw lliwgar hwn.
 14. Ysgawen. Yn ôl traddodiad, ar bren Ysgawen y crogodd Jiwdas, a dyna paham, meddir, ei fod yn bren mor feddal ac eiddil.
 15. Helygen Grynddail Fwyaf.
 16. Maswellt (*Holcus lanatus*, 'Yorkshire-fog'). Sylwyd ar o leiaf wyth math gwahanol o wair yn tyfu yn y gwrych yr ochr hyn i'r ffordd. Dyma'r cyntaf, ac y mae enwau'r lleill yn dilyn.
 17. Pawrwellt Hysb (*Anisantha sterilis*, 'Barren Brome').
 18. Ceirchwellt Tal (*Arrhenatherum elatius*, 'False Oat-grass').
 19. Byswellt (*Dactylis glomerata*, 'Cock's-foot').
 20. Rhygwellt Lluosflwydd (*Lolium perenne*, 'Perennial Rye-grass').
 21. Gweunwellt Llyfn (*Poa pratensis*, 'Smooth Meadow-grass'). Gelwir hefyd: Gwellt y Gweunydd.
 22. Gweunwellt Unflwydd (*Poa annua*, 'Annual Meadow-grass').
 23. Pefrwellt (*Phalaris arundinacea*, 'Reed Canary-grass'). Tyf y gweiryng hwn yn amlwg iawn mewn He gwlyb, a dyna paham y'i gelwir weithiau hefyd wrth yr enwau: Cawnwellt a Chorswellt Amryliw.
- Wrth ochr y gwrych hwn, ar y chwith wrth fynd i fyny i gyfeiriad y capel, ceir llain cul o dir a ddefnyddir ar y Sul ac adegau eraill i barcio cerbydau. Oherwydd ei fod mewn mannau o natur wlyb, rhoddwyd haen neu ddwy o raean arno, lai na blwyddyn cyn hynny ac y mae'r tyfiant ar y llain hwn yn nodweddiadol o blanhigion - llawer ohonynt yn chwyn - sy'n tyfu'n gyflym ar dir newydd. Dyma, felly, rai o'r planhigion hynny, ond ni nodir y planhigion a enwyd eisoes wrth gyfeirio at y gwrych.
24. Chwyn Afal Pinwydd (*Matricaria discoidea*, 'Pineappleweed').
 25. Llwynhidydd Mawr (*Plantago major*, 'Greater Plantain'). Enwau eraill arno yw: Cabaits y Llawr, Dail Llydan y Ffordd a Llyriad Cynffon Llygoden.
 26. Cribell Felen (*Rhinanthus minor*, 'Yellow-rattle'). Gelwir hefyd: Arian Cor, Arian Gweirwyr, Arian Gwion, Arian y Pladurwr, Arian y Meirch, Clych y Meirch, Coden Grimp, Cribell Ceiliog, Pensiaraad a Thegan y Baban. Pan fo

pen y Gribell Felen yn aeddfedu a'r hadau yn sychu, maent yn ysgwyd y tu mewn i gwdyn bychan y ffrwyth ac yn gwneud swm ratlan, yn union fel tegan baban, 'rattle'. Y mae'r Gribell Felen yn tyfu'n amlwg mewn hen weiriau, megis gwair rhos.

27. Helyglys Llydanddail (*Epilobium montanum*, 'Broad-leaved Willowherb').
28. Gludlys Coch (*Silene dioica*, 'Red Champion'). Gelwir hefyd: Blodeuyn Rhudd, Blodyn Crach, Blodyn Neidr, Blodyn Taranau, Botwm Mab Ifanc, Ceiliog Coch, Llys yr Ychen a Llyisiau Robin.
29. Clust Llygoden y Felin (*Cerastium tomentosum*, 'Snow-in-summer'). Y mae enw lliwgar y planhigyn hwn, fel cymaint o blanhigion eraill, yn ei ddisgrifio i'r dim. Y mae iddo ddail blewog llyfn, megis llygoden, a blodyn llwyd-wyn, yr un lliw a llwch y blawd yn disgyn ar 'Lygoden y Felin'. Blodyn wedi dianc o ardd gyfagos yw hwn, mae'n debyg.
30. Gwalchlys Llyfn (*Crepis capillaris*, 'Smooth Hawk's-beard').
31. Llygad y Dydd.
32. Crafanc y Fran (*Ranunculus repens*, 'Creeping Buttercup'). Perthyn i'r un teulu a Blodyn Ymenyn, ond bod ei goesyn yn dewach ac yn fwy sgwar.
33. Gweunwellt Unflwydd (*Poa annua*, 'Annual Meadow-grass').
Y mae'r clawdd a'r gwrych ar y dde i'r ffordd sy'n arwain at y capel yn amgau rhan o Ffridd Foty Bach, Cefn Nannau, neu Gae Dan Capel, fel y'i gelwir heddiw. Mae'r tir yma yn llawer sychach nag wrth ochr y gwrych ar y chwith. Gwelir y Ddraenen Wen yn amlwg yn hwn eto. Felly hefyd nifer o blanhigion a enwyd eisoes wrth son am y gwrych ar y chwith. Ond dyma rai ychwanegol, nas cyfeiriwyd atynt hyd yn hyn.
34. Pengaled ('Common Knapweed').
35. Llygad Doli (*Veronica chamaedrys*, 'Germander Speedwell'). Gelwir hefyd mewn gwahanol ardaloedd yn Graith Unnos, Derlys Gwyllt, Llygad Glas, Llygad y Deryn Bach, Llygad y Gath, Llygad y Tarw, Llygad yr Angel, Llyisiau Llywelyn, Rhwyddlwyn Blewynog a Rhwyddlwyn y Ddeilen Ddu Dda.
36. Serenllys Gwelltog (*Stellaria graminea*, 'Lesser Stitchwort'). Gelwir hefyd: Manllys y Neidr, Serenllys y Bryniau, Serenllys y Gors a Thafod yr Edn Leiaf.
37. Serenllys Mawr (*Stellaria holostea*, 'Greater Stitchwort'). Gelwir hefyd: Bara Can a Llaeth, Bara Caws a Llaeth, Blodau'r Neidr, Bwyd y Gog, Bwyd y Neidr, Llyisiau Clee, Llyisiau'r Glust, Serenllys y Gwrych ac yn Fotwm Crys - y blodyn hwnnw, wedi iddo sychu, sy'n clecian wrth ichi wasgu'r ffrwyth.
38. Llawredynen y Fagwyr (*Polypodium vulgare*, 'Polypody').
39. Meillionen Goch (*Trifolium pratense*, 'Red Clover'). Gelwir hefyd yn Glofer Coch.
40. Meillionen Wen (*Trifolium repens*). Gelwir hefyd: Meillion Gwyn, Meillionen Olwen, Meillionen Wen y Waun a Bara Caws y Defaid. Ein henwau ni, blant, ar y ddau fath o feillion ydoedd: 'Siwgr Coch' a 'Siwgr Gwyn'.
41. Milddail (*Achillea millefolium*, 'Yarrow'). Gelwid hefyd yn Llyisiau'r Gwaedlin a Llys y Gwaedlif, oherwydd iddo gael ei ddefnyddio'n helaeth gynt i atal

- gwaed rhag llifo. Fe'i defnyddid, er enghraifft, gan filwyr ar faes y gad. Arferai'r Derwyddon hwythau ddefnyddio'r ddeilen i ddarogan y tywydd.
42. Pig-yr-Aran Disglair (*Geranium lucidum*, 'Shining Crane's-bill'). Gall y planhigyn hwn dyfu mewn mannau heb fawr o bridd, a dyna paham fod ei ddail yn goch ambell dro.
 43. Suran y Cwn (*Rumex acetosa*, 'Common Sorrell'). Gelwir hefyd: Suran y Fran, Suran y Maes a Suran y Waun.
 44. Eurinllys Trydwill (*Hypericum perforatum*, 'Perforate St John's-wort'). Gelwir hefyd yn Gymraeg yn Llyisiau loan, oherwydd, yn 61 un ddamcaniaeth, ei fod yn blodeuo tua'r un adeg a Gwyl Sant loan, 24ain Mehefin. Coel arall yw fod y smotiau coch ar y dail yn arwyddo Gwaed loan Fedyddiwr. Pe baem yn dal y ddeilen rhyngom a'r golau, gwelem fod ynddi lu mawr o fan dyllau, a dyna paham y gelwir y planhigyn hwn gan rai yn Cantwill. Enwau eraill arno yw: Ysgol Fair ac Ysgol Grist. Fe'i defnyddid i wneud eli at wella briwiau ar groen ac i wneud trwyth i'w yfed at wella'r nerfau.
 45. Melynydd (*Hypochoeris radicata*, 'Cat's-ear'). Gelwir hefyd: Clust y Gath a Melynydd Hir Wreiddiog.
 46. Briwydden y Rhosdir (*Galium saxatile*, 'Heath Bedstraw'). Mae'r blodau bychain gwynion hyn yn tyfu ar le sych, megis ar ben wal gerrig.
 47. Marchredynen (*Dryopteris filix-mas*, 'Male-fern'). Gelwir hefyd: Rhedyn y Cadno.
 48. Ytbysen y Ddol (*Lathyrus pratensis*, 'Meadow Vetchling'). Gelwir hefyd: Ffacbysen y Weirglodd a Phupys y Waun.
 49. Tresgl y Moch (*Potentilla erecta*, TormenhT). Gelwir hefyd: Blodyn Iesu Grist, Melyn y Gweunydd, Melyn y Twynau a Melyn yr Eithin.

A dyma ni wedi cael bras-olwg ar gynnwys diddorol y gwrych bob ochr i'r ffordd at Gapel Cefn Nannau. Awn yn awr i'r fynwent: mynwent fechan, daclus. Fel mewn cymaint o fynwentydd eraill, y mae'r cen yn drwch ar rai o'r cerrig llechi cynharaf. Mae'r cen yn amlwg hefyd ar rannau o'r wal gerrig sy'n amgylchynu'r fynwent. Yn wir, fe ddywedwn i, nad yw bro Uwchaled yn brin o gen, ac y mae hyn yn arwydd o ddilygredd cymharol - yr awyr yn weddol bur a llaith. Ond gadawn y cen yn llonydd, am y tro, a dweud gair am y tir. Er bod y borfa wedi'i thorri ychydig wythnosau yn gynt, roedd hi'n bosibl adnabod amryw byd o'r planhigion a dyfai ym mynwent Capel y Cefn. Dyma, felly, restr o'r rhai amlycaf.

1. Melynydd neu, fel y'i gelwir yn aml, 'Clust y Gath' (*Hypochoeris radicata*). Roedd y fynwent ar y 4ydd o Orffennaf 1995 yn llawn o'r blodyn melyn hwn. Mae'i ddail yn tyfu'n isel gyda'r ddaear, ac felly nid yw torri'r borfa yn ami yn amharu ar ei dwf.
2. Llygad y Dydd.
3. Meillionen Goch.
4. Meillionen Wen.
5. Pengaled (*Centaurea nigra*, 'Common Knapweed').

6. Crafanc y Fran (*Ranunculus repens*, 'Creeping Buttercup').
7. Blodyn Ymenyn (*Ranunculus acris*).
8. Llwynhidydd (*Plantago lanceolata*). Y Llwynhidydd cyffredin yw hwn, a phen caled iddo. Ceir dros ugain o wahanol enwau arno yn Gymraeg, er enghraifft: Ceiliog a'r Iar, Dail Ceiliog, Dail Llwyn y Neidr, Dalen Gryman, Llwyn Hidl, Llysiau yr Ais, Pennau'r Gwyr, Sawdl Crist ac Ysgallenllys.
9. Llwynhidydd Mawr (*Plantago major*). Gelwir hefyd: Cabaits y Llawr, Dail Llydan y Ffordd a Llyriad Cynffon Llygoden.
10. Mantell Fair (*Alchemilla vulgaris*, 'Lady's-mantle'). Blodyn gwyrdd-felyn a'r ddeilen fel mantell. Enw cyffredin arall arno yw Mantell y Forwyn. Gelwir hefyd: Mantell y Cor, Palf y Llew a Throed y Llew
11. Efwr (*Heracleum sphondylium*, 'Hogweed').
12. Milddail (*Achillea millefolium*, 'Yarrow').
13. Fioled Ber (*Viola odorata*, 'Sweet Violet'). Gelwir hefyd: Craith Unnos, Crinllys, Crinllys Per, Esgidiau'r Gog, Meddyges Wen, Millyn Glas, Millyn Gwyn a Millyn.
14. Ysgallen y Gors (*Cirsium palustre*).
15. Llaethysgallen (*Sonchus oleraceus*, 'Smooth Sow-thistle'). Gelwir hefyd: Mochysgallen, Ysgallen y Moch ac Ysgallen Goch. Enw arall yw Llymeidfwyd. Pan dorri coesyn y planhigyn daw sudd gwyn allan ohono.
16. Maswellt (*Holcus lanatus*, 'Yorkshire-fog').
17. Ceirchwellt Tal (*Arrhenatherum elatius*, 'False Oat-grass').
18. Byswellt (*Dactylis glomerata*, 'Cock's-foot').
19. Gweunwellt Unflwydd (*Poa annua*, 'Annual Meadow-grass').
20. Maeswellt Cyffredin (*Agrostis capillaris*, 'Common Bent-grass'). Gelwir hefyd yn Gawn Pensidan.